



CYLCHLYTHYR 5 Hydref 2005

e-bost: coetirmynydd@aol.com
www.coetirmynydd.co.uk

Parc Tan y Bwlch

Mae'n ddrwg gennym orfod adrodd, wedi i ni ennill cefnogaeth llawer o bobl yn y pentref a grant gan Cydcoed, bod Ystad y Penrhyn wedi dweud nad oes ganddynt ddiddordeb bellach mewn gwerthu Parc Tan y Bwlch a'i fod wedi ei osod ar gyfer pori. Mae'r Ystad wedi dweud mai'r porwr sy'n gyfrifol am y ffensys ac y dylai sicrhau ei fod yn cadw ei ddefaid i mewn.

Hoffem ddiolch i bawb a fynegodd ddiddordeb mewn adfer y goedwig ac a fu'n bresennol yn y cyfarfodydd. Ni allwn wneud dim ond cadw golwg ar y sefyllfa yn y gobaith y bydd cyfle yn y dyfodol i sicrhau bod y llain gysgodi yn parhau i amddiffyn y pentref rhag y tywydd gwaethaf ac i roi lloches i'r bywyd gwylt y mae cymaint o bobl yn ei werthfawrogi.

Parc yr Ocar

Cyflawnwyd rhywfaint o waith torri coed ym Mharc yr Ocar dros y ddeufis diwethaf, sef:

- Gwaith diogelu coed ar hyd ymyl y prif lwybrau, yn cynnwys torri canghennau sy'n hongian dros y llwybrau a thorri ychydig o goed peryglus. Torrwyd cyn lleied â phosibl ar y coed a gadawyd coed meirwon i sefyll os oedd eu rhuddin mewn cyflwr da o hyd.
- Torri coed ffawydd llai yn y prif ran o Barc yr Ocar lle ceir coed derw yn bennaf. 'Roedd hyn yn rhan o'r cynllun rheoli a'r bwriad yw gadael i mwy o olau lifo i mewn i'r coed fel nad yw fflora nodweddiadol y coed derw h.y. llys yn cael gormod o gysgod ac i gadw cymeriad 'derwgoed uwchdir' y rhan yma o'r goedwig. Byddwn yn gwyllo'n ofalus i weld sut mae'r coed a'r fflora daear yn ymateb.

Ni symudwyd y coed a dorwyd o'r goedwig.

Nid oes yna fwriad i dorri unrhyw goed eraill yn y goedwig yn ystod y 4 blynedd sy'n weddill o'r cynllun rheoli oni fo coeden yn mynd yn beryglus.

Grant Cydcoed

Bu cais Coetir Mynydd i Cydcoed am grant ar gyfer prosiect a elwir gennym yn Parciau Mynydd yn llwyddiannus. 'Roedd cyfanswm y grant tua

£90,000 i'w rannu rhwng Parc yr Ocar, Parc yr Ynys a Pharc Tan y Bwlch. Ni fyddwn yn gwneud unrhyw beth arall ym Mharc Tan y Bwlch felly os na allwn feddwl am brosiect coetir arall fyddai o fudd i gymunedau yn neu o amgylch Mynydd Llandygai byddwn yn dychwelyd yr arian i Cydcoed fel y gellir ei ddefnyddio yn rhywle arall.

Codi waliau carreg ym Mharc yr Ocar

Defnyddir y grant Cydcoed ym Mharc yr Ocar i adnewyddu'r terfynau traddodiadaol - waliau carreg a ffensys llechen o amgylch y Parc. Gwahoddwyd tendrau am y gwaith a gosodwyd y contract i Hefin Huws o GwaithCerrig Ffrancon. Dechreuodd Barry a Dewi ar y gwaith ddiwedd Medi ac mae'r wal newydd yn edrych yn wych.



Mae Hefin, yn garedig iawn, wedi cynnig ymweld a darparu cyngor ar faterion codi waliau i aelodau Coetir Mynydd yn ystod yr amser y bydd yn gweithio i ni. Os hoffech fanteisio ar y cynnig hwn cysylltwch â Mark Goddard ar (600237).

Dylai'r gwaith hwn gymryd tua naw mis i'w gwblhau ac 'rydym yn ceisio sicrhau cyn lleied o aflonyddwch â phosib'. Wrth gwrs, unwaith y bydd wedi'i gwblhau, ni ddylai fod angen i ni gyffwrdd y waliau am 100 mlynedd arall.

Diogelwch yr argae

Gosodwyd arwyddion diogelwch ar ochr y ffordd a hefyd ar y llwybr yn rhybuddio ynglŷn â'r silt. Yn anffodus mae'r arwyddion ar y llwybr wedi eu

fandaleiddio ac nid ydynt yno bellach. Bwriedir gosod arwyddion newydd yn eu lle yn fuan.

Gosodwyd 5m o ffens diogelwch ar dop y wal wrth ochr yr argae. Ein bwriad yw adfer y wal wrth ymyl y ffordd (sef yr argae, a bod yn fanwl gywir, gan mai dyma sy'n rhwystro'r afon rhag dilyn ei chwrs blaenorol ar draws y ffordd i Goed y Parc). Byddwn hefyd yn gosod ffens tebyg i'r hyn a ddefnyddiwyd ar y rhan prawf ar dop y wal er mwyn rhwystro mynediad at yr argae o'r ffordd. Yna gellir cael gwared o'r llwybr galfanedig, y ffens a'r giat.

Mae Bryn Williams wedi paratoi cynlluniau ar gyfer gwneud y gwaith atgyweirio angenrheidiol i'r argae ac mae'n awgrymu y byddai'n bosibl ei ddefnyddio i gynhyrchu trydan. 'Rydym yn edrych ar y trefniadau cyllido ar gyfer (a) atgyweirio'r argae a (b) gosod hydro bychan islaw'r argae.

Er i'r Ystad roi £25,000 i ni tuag at y gost o ddiogelu'r argae, mae Bryn yn cynghori y bydd angen tua £50,000 i adfer yr argae'n llwyr i gyflwr gweithiol. Gan hynny, 'rydym yn chwilio am arian ar gyfer y gwaith a gobeithiwn y gallwn fuddsoddi'r £25,000 i ddarparu incwm digonol i dalu am archwiliadau blynyddol i'r argae ac yswiriant a hefyd fel cronfa argyfwng ar gyfer yr argae.

Parc yr Ynys

Defnyddir y grant Cydcoed ym Mharc yr Ynys i atgyweirio'r ffens anifeiliaid ar hyd ymyl y ffordd. Gwahoddwyd tendrau ar gyfer y gwaith yma a bydd y contract yn cael ei osod yn fuan. Dylid cwblhau'r gwaith hwn dros y misoedd nesaf.

Mae First Hydro yn parhau'n fodlon rhoi cymorth ariannol tuag at y gost o osod mainc ym mhen uchaf Parc yr Ynys fel y gall pobl eistedd a mwynhau'r olygfa. Bydd y fainc wedi'i gwneud o dderw coeden sydd wedi disgyn ym Mharc yr Ocar felly ni fydd angen i ni dalu am ddim ond y llafur. Ymhen amser bwriadwn osod pont fechan a llwybr fel bo'r fainc o fewn cyrraedd pobl anabl.

Coed Call

Noddwyd Coed Call gan Coetir Mynydd er mwyn darparu gweithgareddau seiliedig ar goetiroedd ar gyfer plant yng Ngŵyl Haf Antur Mynydd. Darparwyd cyllid ar gyfer y digwyddiad hwn gan: Academi, Tir Coed a Choetir Mynydd. Cynhaliwyd y digwyddiad ym mhabell groen y Comisiwn Coedwigaeth a fenthycwyd i ni drwy garedigrwydd swyddfa ardal Llanrwst.

O ganlyniad i frwdfrydedd y bobl ifanc ynglŷn â'r digwyddiad hwn 'rydym yn barod iawn i ystyried nodd digwyddiad tebyg ar gyfer y Sioe Dyffryn Ogwen nesaf. Bydd angen cyllid o nifer o ffynonellau gwahanol ar gyfer hyn ac 'rydym yn edrych ar wahanol opsiynau.



Parc y Bwlch

Mae'n debyg eich bod wedi sylwi (!) bod yna lain wedi'i chlirio yng nghanol Parc y Bwlch. Fel yr eglurwyd yn y digwyddiad ymgynghori yng Ngŵyl Haf 2004, mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn rheoli'r coed yn unol â chynlluniau dylunio 5 mlynedd a daethpwyd i gytundeb yn ôl yn 2000 gyda'r Cyngor Cymuned i dorri'r coed hyn ac nid oedd yn rhywbeth y byddai'r Comisiwn Coedwigaeth wedi bod yn fodlon ei newid. Fodd bynnag, mae'r cynllun dylunio ar gyfer y 5 mlynedd nesaf yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ac mae Kim (y Rheolwr Ardal dros Barc y Bwlch) yn ein sicrhau y gall y gymuned ddylanwadu ar ffurf yr ailblannu yn y llain lle torrwyd y coed (trefnwyd hyn ar gyfer Gaeaf 2006) yn ogystal â'r torri coed fydd yn digwydd yn y dyfodol. Bydd Kim yn rhoi cyflwyniad byr ar y broses gynllunio yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Gobeithiwn drefnu digwyddiadau ymgynghori dros y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau bod y cynlluniau i'r dyfodol yn cyfarfod ag anghenion y gymuned.

Cyfarfod cyffredinol blynyddol

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2005: Ddydd Gwener, 25 Tachwedd am 7 pm. Dylid anfon enwebiadau ar gyfer y Bwrdd at Mike Yates yn The Vestry (601508) erbyn Dydd Gwener, 18 Tachwedd.

Mae tanysgrifiadau o £5 yn ddyledus yn awr ar gyfer aeolodaeth 2005-6.

Rhaglen:

- Adroddiad blynyddol
- Adroddiad ariannol
- Ethol y Bwrdd
- Cyflwyno proses gynllunio Parc y Bwlch (Kim Burnham, Y Comisiwn Coedwigaeth)
- Cynlluniau ar gyfer 2006
- Unrhyw fater arall